

LLOYD, Syr RICHARD (1606 - 1676), Brenhinwr a barnwr

Enw: Richard Lloyd
Dyddiad geni: 1606
Dyddiad marw: 1676
Plentyn: Jane Owen (née Lloyd)
Plentyn: Anne Ravenscroft (née Lloyd)
Rhiant: Evan Lloyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Brenhinwr a barnwr
Maes gweithgaredd: Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awduron: Arthur Herbert Dodd, Robert Thomas Jenkins

O Esclus, sir Ddinbych; mab Evan Lloyd, Dulasau, Sir Gaernarfon (nid mab Primus Lloyd, Marrington, fel y dywed y *D.N.B.*). Ymsefydlasai ei deulu ers canrifoedd yng nghyffiniau Penmachno, gan hawlio eu bod yn disgyn o fab anghyfreithlon i **Ddafydd**, brawd y **tywysog Llywelyn olaf**. Yr oedd Syr Richard yn nai i offeiriad Rhiwabon ac yn gefnder i dri offeiriad arall yng Ngogledd Cymru ac i **Humphrey Lloyd**, esgob Bangor. Aeth i'r Inner Temple yn 1631, bu'n gwasanaethu ar negeseuau dros ei wlad mewn gwledydd tramor yn 1635-6, a phan ddychwelodd rhoddwydd iddo'r hawl i ddilyn y gwr a ddaliai ar y pryd y swydd o 'Prothonotary' a chlerc i'r Goron yn siroedd Dinbych a Threfaldwyn. Bu'n gwasanaethu Siarll pan oedd hwnnw ar gyrch yn Sgotland yn 1639. Wedyn fe'i gwnaethpwyd yn atwrnai cyffredinol dros Ogledd Cymru; yn y swydd honno bu'n ddiwyd iawn, o Awst 1641 hyd Ebrill 1642, yn gwrthweithio'r cynnwrf a wneid gan rai a geisiai ddifodi cyngor y goror yn Llwydlo - ei ddull ef o wrthweithio oedd mabwysiadu mesurau gohirio neu wneud cynigiadau gwrthgyferbyniol; yn gynnar ym mis Mehefin aeth i Gaerefrog at y brenin gan ddwyn iddo ddatganiadau o deyrngarwch chwe sir Gogledd Cymru. Bu'n croesawu a lletya'r brenin pan ymwelodd hwnnw â Wrecsam ar 27 Medi a 7 Hydref 1642 i geisio ennill milwyr o'i blaid, a chafodd ei urddo'n farchog ar yr ail ymweliad. Bu'n flaenllaw yn amddiffyniad Caer yn 1643 a sir Ddinbych yn 1644. Wedi i filwyr plaid y Senedd ddyfod ar gyrch i Gymru yn 1644 fe'i gwnaethpwyd yn llywawdr castell Holt; parhaodd i ddal y castell hyd 13 Ionawr 1647, pryd yr ymostyngodd i **Thomas Mytton** ar delerau a olygai y gallai ef fynd allan o Brydain gyda £300 allan o'i stad bersonol ef ei hun a chaniatâd i'w deulu gadw tiroedd o'r un faint o werth. Oblegid ei agwedd ddi-ildio tuag ati penderfynodd y Senedd geisio peidio â'i gynnwys ef ymhlith y rhai a oedd i gael pardwn pan oedd yn ystyried telerau 1647. Dychwelodd wedi'r Aferiad a gwnaethpwyd ef yn farnwr cychdaith de-ddwyreiniol y Sesiwn Fawr ym mis Gorffennaf 1660. Bu'n weithgar gyda'r mudiad i ailsefydlu cyngor y goror gan baratol memorandwm (a gyflwynwyd ym mis Mehefin 1661) yn cynnwys ailadroddiad o resymau ac ymresymiaadau a ddefnyddiasai 20 mlynedd cyn hynny. Yn yr un flwyddyn etholwyd ef i'r Senedd gan dref Caerdydd a sir Faesyfed; dewisodd eistedd dros yr olaf, gan barhau i wneuthur hynny hyd ei farwolaeth ar 5 Mai 1676. Claddwyd ef yn Wrecsam.

Hawliau a aelod arall (heb sôn, am y tro, am **David Owen**, 'Dafydd y Garreg Wen,') o'r tylwyth hwn ryw ychydig sylw. O gymharu'r tablau yn **J. E. Griffith** (*Pedigrees*, 330, 353, 269), gwelir fod gan Syr Richard Lloyd chwaer o'r enw Margaret, a briododd â **Richard Anwyl** o'r Parc. Merch iddynt hwy oedd Barbara, a oedd yn fyw yn 1707 ac a fu'n briod ddwywaith, yr eiltro â rhyw 'Parry,' a uniaethir gan rai â Jeffrey Parry o Rydolion, hynaif **Parriaid** Madryn - ond ni thâl hyn, oblegid yr oedd hwnnw wedi marw pan oedd hi eto'n briod am y tro cyntaf. Enw ei gwr cyntaf, fel y praw Nannau MS. 3452 yn llyfrgell Coleg y Gogledd, oedd Hugh Lloyd (nid 'Richard' fel y dywed **Griffith**) o Ddeneio a Nefyn. Trydydd mab (pumed mab, yn ôl rhai) y ddeuddyn hyn oedd Roderick Lloyd (bu farw 1730) o'r Hafodwryd ym Mhenmachno, a ymaelododd yn Lincoln's Inn yn 1684 (ac a fwiodd y rhan fwyaf o'i oes ynddo), ac a ddaeth (fel ei ewythr **Richard Anwyl**) yn 'Clerk of the Outlawries in the Court of Common Pleas.' Dywedir yn aml ei fod yn 'protonotary' i'w gymydog enwog **Syr Robert Price** o'r Giler, ond nid ymddengys ei enw yn rhestrau **W. R. Williams** (*The Welsh Judges*) - er hynny, y mae'n amlwg fod cyswilt agos, ar hyd ei yrfa, rhyngddo a **Price**. Cofir ef ym Mhenmachno yn herwydd yr ysgol, yr elusendai, a'r elusennau (gan gynnwys 'llyfrau Cymraeg i'r tlodion') a roes ef i'w blwyf - gweler yr ewyllys (Nannau MS. 3448 ym Mangor), a hefyd Lowe, *The Heart of Northern Wales*, ii, 437-40, a *Gweithiau Gethin*, 250, 253-4. Priododd (1703) ag Anne, gweddwr Robert Pugh o'r Bennar neu'r Bennardd ym Mhenmachno (cyfreithwr o'r Middle Temple), a gadawodd ferch, Anne eto, a briododd (1730) ag Edward Williams o Feillionydd. Merch iddynt hwy, Anne drachefn, drwy ei phriodas â **Robert Howell Vaughan** (**Griffith**, op. cit., 201), a ddug eiddo Roderick Lloyd i deulu Hengwrt-Nannau, a dyna'r paham y mae ei bapurau ef ymhlith papurau Nannau yn llyfrgell Coleg y Gogledd - papurau (yn enwedig Nannau MSS. 3444-60) sy'n cyfannu ac yn cywiro rhyw gymaint ar dablau **J. E. Griffith**. Bu Roderick Lloyd farw fis Mai 1730, a chladdwyd 30 Mai yng nghapel Lincoln's Inn. Merch o'i phriodas gyntaf (â Robert Pugh) i'w wraig oedd Anne Pugh, a ddaeth yn wraig i **John Wynne**, esgob Llanelwy; dyna'r paham y gwelir enw'r esgob gyda **Syr Robert Price** ac eraill ymhlith ysgutorion ewyllys Roderick Lloyd.

Awduron

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, a'r ffynonellau a enwir yno

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 328, 330

Huntington Library, U.S.A., *Llawysgrifau Egerton yn Llyfgrrell Huntigndon*, U.D.A 7539-7559

N.L.W. *Llawysgrifau Crosse of Shaw Hill yn Llyfgrrell Genedlaethol Cymru* 1101-1111

Caroline A. J. Skeel, *The Council in the Marches of Wales a study in local government during the sixteenth and seventeenth centurie* (Caergrawnt 1904), 166

R. H. Morris, *The Siege of Chester, 1643â€”1646* (Chester 1924), 110, 122, 146, 185

P. H. Lawson yn y *The Cheshire Sheaf, being local gleanings, historical & antiquarian*, Ionawr a Chwefror 1937, a'r cyfeiriadau eraill a roddwyd uchod

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government